OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3277 (Cy.315)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002

Wedi'i wneud - - 6 Rhagfyr 2002

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Yn unol ag adrannau 58(1) a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) cyflwynodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynigion ym Mawrth 2001 ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi cytuno â'r cynigion yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o'r Ddeddf.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion, sy'n rhagarweiniol i unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bro Morgannwg 1994(**2**);

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "map" ("*map*") yw'r map a farciwyd "map Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidadau Etholiadol) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**).

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.
(**3**) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/247).

Adrannau Etholiadol

2.—(1) Mae adrannau etholiadol presennol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a bennir yn yr Atodlen i Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bro Morgannwg 1994 yn cael eu diddymu.

(2) At ddibenion ethol cynghorwyr ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, rhennir y Sir honno yn 23 o adrannau etholiadol yn dwyn yr enwau a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a bydd pob adran etholiadol o'r fath yn ffurfio'r ardal a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno, fel y'i dynodir ar y map ac fel y'i diffinnir â llinellau coch.

(3) Y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol o'r fath fydd y nifer a bennir mewn perthynas â'r adran yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Y Gofrestr o Etholwyr Llywodraeth Leol

3. Bydd y swyddog cofrestru yn gwneud unrhyw ad-drefniadau neu addasiadau i'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sy'n angenrheidiol am fod y Gorchymyn hwn yn dod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

E. Hart
Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

6 Rhagfyr 2002